**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/10110/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

10 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-05-1119 am flaenoriaethu athrawon, a staff ysgolion a gofal plant ar gyfer brechiadau COVID-19**.**

Mae Cymru, fel gwledydd eraill y DU, yn brechu'r bobl sydd fwyaf tebygol o ddal y coronafeirws a datblygu afiechydon difrifol yn gyntaf, yn unol ag argymhellion y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI). Maent wedi argymell y dylid cynnig y brechlyn yn y lle cyntaf i breswylwyr cartrefi gofal, staff cartrefi gofal, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen, ynghyd â phobl 80 oed a throsodd.

https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-2-december-2020

Bydd unrhyw weithwyr dros 50 oed neu sydd â chyflyrau iechyd penodol yn cael eu cynnwys o fewn y cam cyntaf hwn o frechu, pan ddaw eu tro yn ôl blaenoriaethu'r JCVI.

Disgwylir i'r rhai o dan 50 oed gael eu brechu fel rhan o'r ail gam maes o law. Fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniadau ar lefel y DU wedi'u gwneud ar hyn eto.

Mae cyfraniad gweithwyr allweddol yn ystod y pandemig wedi bod yn anhygoel. Mae'n dda bod y JCVI yn adolygu'r blaenoriaethau o ran brechlynnau yn gyson, yn enwedig wrth gynllunio pa garfannau fydd yn rhan o'r cam nesaf.

Pe bai grwpiau mawr o weithwyr, megis athrawon a staff gofal plant, yn cael blaenoriaeth yn gynharach, byddai hynny'n golygu bod rhaid i grwpiau eraill sy'n fwy agored i niwed aros am fwy o amser.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i adolygu cyngor y JCVI. Gellir gweld Strategaeth Frechu Cymru isod, i gael rhagor o wybodaeth am gerrig milltir Llywodraeth Cymru a threfniadau'r rhaglen:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/strategaeth-frechu-i-gymru.pdf

Bydd llwyddiant y strategaeth yn ddibynnol ar weld Cymru'n parhau i dderbyn cyflenwad rheolaidd a dibynadwy o'r brechlyn gan y cyflenwyr. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am brynu a chydlynu'r cyflenwad o'r brechlyn i bob un o'r pedair cenedl yn y DU.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services